Eglwys y Santes Fair

y Gair
y Groes
y Gymraeg

17eg o Fai 2020

11:00yb Gwasanaeth Unedig ar-lein

Ewch i *www.eglwysfair.cymru* a dewiswch *Eglwys Fair ar-lein* i ymuno â ni

5:00yh Hwyrol Weddi (ar *Zoom*, meddalwedd cynadledda fideo)

CROESO

Croeso i Eglwys y Santes Fair!

Nid ydym yn gallu cynnal gwasanaethau cyhoeddus tan yr hydref, ond rydym yn mynd i wneud pob ymdrech i helpu ein gilydd yn ystod y misoedd nesaf.

Bydd y newyddion diweddaraf ar ein gwefan, ac yn y newyddlen yma. Os ydych chi am rannu newyddion, stori, adnod, cysylltwch â ni!

Y Pasg 6

O Dduw ein hiachawdwr,
gwaredaist ni rhag galluoedd y tywyllwch a'n dwyn i deyrnas dy Fab:
caniatâ iddo ef a'n galwodd ni'n ôl i fywyd trwy ei angau, ein cyfodi i lawenydd tragwyddol trwy ei bresenoldeb parhaus ynom ni;
trwy Iesu Grist dy Fab ein Harglwydd, sy'n fyw ac yn teyrnasu gyda thi a'r Ysbryd Glân, yn un Duw, yn awr ac am byth. A**men**.

Gweddi Eglwys y Santes Fair

Arglwydd Iesu,
addewaist adeiladu dy eglwys.
Felly, os gweli di fod yn dda,
adeilada dy eglwys yn ein plith.
Cymorth ni i ddyfnhau ein perthynas â thi, a chynydda'r nifer o Gristnogion newydd sy'n addoli yma trwy gydol y flwyddyn, er mwyn dy anrhydedd yn y plwyf hwn. **Amen**.

www.eglwysfair.cymru

Eglwys y Santes Fair, Aberystwyth @eglwysfair

Newyddion Teulu'r Eglwys

Ar-lein

Am fwy o wybodaeth am beth sy'n digwydd yn ein plwyf yn ystod y cyfnod anodd yma, edrychwch ar ein gwefan a'n tudalen ar *Facebook*.

Church Suite

Mae'r plwyf wedi mabwysiadu ap arbennig ar gyfer ffôn a chyfrifiadur – *Churchsuite*. Ewch i https://login.churchsuite.com/ am fwy o wybodaeth, neu lawrlwytho'r ap i'ch ffôn.

Cyfrannu

Mae cyfle i chi gyfrannu'n ariannol at yr eglwys trwy ein gwefan – eglwysfair.cymru .

Mae gan ein elusennau partner – *TEARFund* ac *Open Doors* apeliadau ar hyn o bryd. Yn ystod y cyfnod yma, beth am ddarganfod mwy am eu gwaith, a rhoi rhywbeth i helpu eraill. Edrychwch ar opendoorsuk.org a tearfund.org.

Hwyrol Weddi ar y We

Cynhelir oedfa Hwyrol Weddi Santes Fair am 5yh bob dydd Sul drwy raglen *Zoom*. Er mwyn ymuno â'r oedfa, cliciwch ar y ddolen hon: https://zoom.us/j/5337235913 Bydd angen cyfrifiadur neu liniadur sydd â chamera a meic arno, neu gallech chi ddefnyddio ffôn clyfar neu ddyfais tabled.

Os na allwch chi ymuno ar lein, gallech chi ymuno ar y ffôn ar 013 1460 1196 yna pan ofynnir am 'meeting ID', rhaid i chi ddefnyddio'r rhif canlynol: 533 723 5913 ac yna'r hashtag. Cofiwch y bydd cost i'r alwad, a fydd yn amrywio fesul cwmni.

Yn Eglwys y Santes Fair...
rydym yn **creu cymuned** sy'n **caru'n cymdeithas** er mwyn **cyflwyno Crist.**

Actau 17: 22-31

22 Safodd Paul yng nghanol yr Areopagus, ac
meddai: “Bobl Athen, yr wyf yn gweld ar bob
llaw eich bod yn dra chrefyddgar. 23 Oherwydd
wrth fynd o gwmpas ac edrych ar eich pethau
cysegredig, cefais yn eu plith allor ac arni'n
ysgrifenedig, ‘I Dduw nid adwaenir’. Yr hyn,
ynteu, yr ydych chwi'n ei addoli heb ei
adnabod, dyna'r hyn yr wyf fi'n ei gyhoeddi i
chwi. 24 Y Duw a wnaeth y byd a phopeth sydd
ynddo, nid yw ef, ac yntau'n Arglwydd nef a
daear, yn preswylio mewn temlau o waith
llaw. 25 Ni wasanaethir ef chwaith â dwylo
dynol, fel pe bai arno angen rhywbeth, gan
mai ef ei hun sy'n rhoi i bawb fywyd ac anadl
a'r cwbl oll. 26 Gwnaeth ef hefyd o un dyn yr
holl genhedloedd, i breswylio ar holl wyneb y
ddaear, gan osod cyfnodau penodedig a
therfynau eu preswylfod. 27 Yr oeddent i geisio
Duw, yn y gobaith y gallent rywfodd
ymbalfalu amdano a'i ddarganfod; ac eto nid
yw ef nepell oddi wrth yr un ohonom.
28 “ ‘Oherwydd ynddo ef yr ydym yn byw ac yn
symud ac yn bod’,
“fel, yn wir, y dywedodd rhai o'ch beirdd
chwi:
“ ‘Canys ei hiliogaeth ef hefyd ydym ni.’
29 “Os ydym ni, felly, yn hiliogaeth Duw, ni
ddylem dybio fod y Duwdod yn debyg i aur
neu arian neu faen, gwaith nadd celfyddyd a
dychymyg dyn. 30 Yn wir, edrychodd Duw
heibio i amserau anwybodaeth; ond yn awr y
mae'n gorchymyn i bawb ym mhob man
edifarhau, 31 oblegid gosododd ddiwrnod pryd
y bydd yn barnu'r byd mewn cyfiawnder, trwy
ŵr a benododd, ac fe roes sicrwydd o hyn i
bawb trwy ei atgyfodi ef oddi wrth y meirw.”

Salm 66: 8-20

8 Bendithiwch ein Duw, O bobloedd, a
seiniwch ei fawl yn glywadwy.
9 Ef a roes le i ni ymysg y byw, ac ni
adawodd i'n troed lithro.
10 Oherwydd buost yn ein profi, O
Dduw, ac yn ein coethi fel arian.
11 Dygaist ni i'r rhwyd, rhoist rwymau
amdanom,
12 gadewaist i ddynion farchogaeth
dros ein pennau, aethom trwy dân a
dyfroedd; ond dygaist ni allan i
ryddid.
13 Dof i'th deml â phoethoffrymau,
talaf i ti fy addunedau,
14 a wneuthum â'm gwefusau ac a
lefarodd fy ngenau pan oedd yn
gyfyng arnaf.
15 Aberthaf i ti basgedigion yn
boethoffrymau, a hefyd hyrddod yn
arogldarth; darparaf ychen a bychod
geifr.
16 Dewch i wrando, chwi oll sy'n ofni
Duw, ac adroddaf yr hyn a wnaeth
Duw i mi.
17 Gwaeddais arno â'm genau, ac yr
oedd moliant ar fy nhafod.
18 Pe bawn wedi coleddu drygioni yn
fy nghalon, ni fuasai'r Arglwydd wedi
gwrando; 19 ond yn wir, gwrandawodd
Duw, a rhoes sylw i lef fy ngweddi.
20 Bendigedig fyddo Duw am na
throdd fy ngweddi oddi wrtho, na'i
ffyddlondeb oddi wrthyf.

1 Pedr 3: 13-22

13 Felly, pwy a wna niwed ichwi os byddwch
yn selog tros ddaioni? 14 Ond hyd yn oed pe
digwyddai ichwi ddioddef o achos
cyfiawnder, gwyn eich byd! Peidiwch â'u
hofni hwy, a pheidiwch â chymryd eich
tarfu, 15 ond sancteiddiwch Grist yn
Arglwydd yn eich calonnau. Byddwch yn
barod bob amser i roi ateb i bob un fydd yn
ceisio gennych gyfrif am y gobaith sydd
ynoch. Ond gwnewch hynny gydag
addfwynder a pharchedig ofn, 16 gan gadw
eich cydwybod yn lân; ac yna, lle'r ydych yn
awr yn cael eich sarhau, fe godir cywilydd
ar y rhai sy'n dilorni eich ymarweddiad da
yng Nghrist. 17 Oherwydd gwell yw dioddef,
os dyna ewyllys Duw, am wneud da nag am
wneud drwg. 18 Oherwydd dioddefodd Crist
yntau un waith am byth dros bechodau, y
cyfiawn dros yr anghyfiawn, i'ch dwyn chwi
at Dduw. Er ei roi i farwolaeth o ran y
cnawd, fe'i gwnaed yn fyw o ran yr ysbryd,
19 ac felly yr aeth a chyhoeddi ei genadwri i'r
ysbrydion yng ngharchar. 20 Yr oedd y rheini
wedi bod yn anufudd gynt, pan oedd Duw
yn ei amynedd yn dal i ddisgwyl, yn nyddiau
Noa ac adeiladu'r arch. Yn yr arch fe
achubwyd ychydig, sef wyth enaid, trwy
ddŵr, 21 ac y mae'r hyn sy'n cyfateb i hynny,
sef bedydd, yn eich achub chwi yn awr, nid
fel modd i fwrw ymaith fudreddi'r cnawd,
ond fel ernes o gydwybod dda tuag at
Dduw, trwy atgyfodiad Iesu Grist. 22 Y mae
ef, ar ôl mynd i mewn i'r nef, ar ddeheulaw
Duw, a'r angylion a'r awdurdodau a'r
galluoedd wedi eu darostwng iddo.

Ioan 14: 15-21

Addo'r Ysbryd

15 “Os ydych yn fy ngharu i, fe
gadwch fy ngorchmynion i.
16 Ac fe ofynnaf finnau i'm
Tad, ac fe rydd ef i chwi
Eiriolwr arall i fod gyda chwi
am byth, 17 Ysbryd y
Gwirionedd. Ni all y byd ei
dderbyn ef, am nad yw'r byd
yn ei weld nac yn ei adnabod
ef; yr ydych chwi yn ei
adnabod, oherwydd gyda
chwi y mae'n aros ac ynoch
chwi y bydd. 18 Ni adawaf
chwi'n amddifad; fe ddof yn
ôl atoch chwi. 19 Ymhen
ychydig amser, ni bydd y byd
yn fy ngweld i ddim mwy,
ond byddwch chwi'n fy
ngweld, fy mod yn fyw; a
byw fyddwch chwithau
hefyd. 20 Yn y dydd hwnnw
byddwch chwi'n gwybod fy
mod i yn fy Nhad, a'ch bod
chwi ynof fi, a minnau ynoch
chwithau. 21 Pwy bynnag y
mae fy ngorchmynion i
ganddo, ac sy'n eu cadw
hwy, yw'r un sy'n fy ngharu i.
A'r un sy'n fy ngharu i, fe'i
cerir gan fy Nhad, a byddaf
finnau yn ei garu, ac yn
f'amlygu fy hun iddo.”